**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**
Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Hydref 2021 am 10.30am

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd C. Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hopkins Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd S Rees Y Cynghorydd L Hooper

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles – Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms C Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu
Ms J Neale, Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion
Mr G Powell, Swyddog Hyfforddi, Carfan Datblygu'r Gweithlu - Gofal Cymdeithasol Cwm Taf
Ms T Prosser, Rheolwr y Garfan, Gwasanaethau i Blant

## 26 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

## 27 YMDDIHEURIADAU

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen ac E. Griffiths.

## 28 EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 29 ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Cafodd adroddiad ei gyflwyno i aelodau'r Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, a oedd yn rhoi trosolwg manwl o argymhellion 2 Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (CPR) a gynhaliwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg (CTMSB), a'r camau yr oedd Gwasanaethau i Blant wedi'u cymryd i wreiddio a gwerthuso dysgu adolygu mewn ymateb i hyn.

Holodd aelodau'r Bwrdd y swyddogion am nifer o agweddau ar yr adolygiadau a'r gwaith gwerthuso dysgu, yn ogystal â'r broses o ran lledaenu a rhannu arferion wrth symud ymlaen, ac ymatebodd y swyddogion yn briodol i'r holl gwestiynau.

Ar ôl trafod yn fanwl, **PENDERFYNODD** y Bwrdd:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd**